

CFfG/2021/ 4ydd Cyfarfod

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Mawrth 27 Ebrill trwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford	Dirprwy Gadeirydd
Aaron Sollis	Asesydd (Arolwg Ordnans)
Huw Vaughan Thomas	Comisiynydd
Sam Hartley	Comisiynydd
Shereen Williams	Ysgrifennydd y Comisiwn
Tom Jenkins	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Rhydian Fitter	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Huw Blacker	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Hannah Toor	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Carys Vaughan	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 16:30

Amser Gorffen: 18:20

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

- 1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer Neil Park, Asesydd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

- 3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 9, 11, 16, 18 Mawrth 2021.

4. MATERION YN CODI

- 4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ddydd Mawrth 23 Chwefror 2021.

Mater 1 – Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 4.2. Mae'r Comisiwn wedi **cytuno** i fynd ar drywydd yr opsiwn hybrid ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus.
- 4.3. **Nodwyd** y gallai fod gwyriad o ran cysondeb rhwng y Comisiynau Ffiniau, gyda'r Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE) a CFfG yn cynllunio ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus hybrid, a'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban (BCS) a'r Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon (BCNI) yn ystyried gwrandawiadau cyhoeddus a fynychir yn bersonol.
- 4.4. **Nodwyd** y byddai cynnal gwrandawiadau hybrid yn gyfle i'r Comisiwn ehangu cyfranogiad a chynhwysiant yn y broses ymgynghori.
- 4.5. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn archwilio'r costau ar gyfer opsiwn cynnal gwrandawiadau cyhoeddus hybrid.

Mater 2 – Cyhoeddi Papurau Cyfarfodydd

- 4.6. Mae'r eitem hon yn cael ei thrafod fel rhan o'r Polisi Datgelu.

Mater 3 – Asesu Effeithiau

- 4.7. **Nododd a chytunodd** y Comisiwn ar yr Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg sydd wedi'u diweddarau.
- 4.8. **Cytunwyd** y bydd defnyddio'r ddogfen hon yn sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y mae wedi'u mabwysiadu.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.
- 5.2. **Nodwyd** bod pedwar newid i'r gofrestr risg, fel a ganlyn:
- 5.3. Mae CFfG 3 wedi'i **dileu** o'r gofrestr risg gan fod y Comisiwn bellach wedi dod o hyd i feddalwedd mapio newydd, ac felly mae'r risg wedi'i dileu.
- 5.4. Mae CFfG 5 wedi'i **diwygio** gan fod y contract ar gyfer y porth bellach yn ei le. Bydd y system yn fyw ar gyfer BCE ym mis Mehefin, a bydd hyn yn galluogi CFfG i ddatrys unrhyw broblemau cyn iddi fynd yn fyw ym mis Medi 2021.
- 5.5. Mae CFfG 13 wedi'i **diwygio** i adlewyrchu bod y Comisiwn wedi cael y briff cychwynnol.

- 5.6. Mae CFfG 16 wedi'i **diwygio** i adlewyrchu'r risg gynhenid yn well.
- 5.7. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ystyried y Gofrestr Risg yng nghyfarfodydd misol yr Uwch Dîm Rheoli.
- 5.8. **Gweithredu:** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn anfon diweddariad misol ar newidiadau i'r Gofrestr Risg at y Comisiynwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod y Comisiynwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf rhwng cyfarfodydd.

6. STRATEGAETH GYFATHREBU

- 6.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried y Strategaeth Gyfathrebu ddyddiedig 19 Ebrill 2021 gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- 6.2. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer y gyllideb Gyfathrebu gyffredinol. **Cytunwyd** y dylid grwpio elfennau hysbysebu cyfathrebiadau yn ôl trefn blaenoriaeth.
- 6.3. **Cytunwyd** mai trefn blaenoriaeth y gyllideb hysbysebu fydd:
- Creu Cynnwys
 - Cyfryngau Cymdeithasol
 - Hysbysebion statig
 - Radio
 - Teledu
 - Print
- 6.4. **Cytunwyd** y bydd hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol yn cael mwy o effaith o ran cyrraedd cynulleidfaoedd targed na hysbysebion print.
- 6.5. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ychwanegu 'Classical FM' at y sianeli hysbysebu ar y radio.
- 6.6. **Gweithredu:** Bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn diweddarau'r strategaeth Gyfathrebu â'r drefn blaenoriaeth y cytunwyd arni.

7. POLISI DATGELU

- 7.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried y polisi datgelu dyddiedig 19 Ebrill 2021 gan yr Ysgrifennydd.
- 7.2. **Cytunodd** y Comisiwn i fabwysiadu'r Polisi Datgelu ar gyfer Arolwg 2023.
- 7.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ddirprwyo'r dasg o olygu papurau'r Comisiwn i'r Ysgrifennydd.

- 7.4. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn defnyddio'r polisi i benderfynu pa bapurau fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan CFFG.
- 7.5. Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai'r Comisiwn gyhoeddi'r holl bapurau sy'n ymwneud â chyfarfodydd cynllun, gan gynnwys yr holl gynlluniau a ystyriwyd gan y Comisiwn ar gyfer y Cynigion Cychwynnol, ac a fyddai'r papurau hyn yn cael eu hystyried fel papurau gwaith a'u heithrio rhag cael eu datgelu.
- 7.6. **Gweithredu:** Bydd yr Ysgrifennydd yn trafod â BCE, BCS a BCNI a ddylid rhyddhau'r holl bapurau o Gyfarfodydd Cynllun, a bydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

8. YR ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL

- 8.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol gan yr Ysgrifennydd.
- 8.2. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol o ran sylwedd a mynegiant ar y cam hwn. Bydd Sicrhau Ansawdd y ddogfen hon yn cael ei wneud ar wahân.
- 8.3. **Cytunodd** y Comisiwn i nifer o ddiwygiadau sydd i'w gwneud.
- 8.4. **Cytunodd** y Comisiwn ynghylch pa etholaethau fydd yn cael eu dynodi'n Siroedd a Bwrdeistrefi.
- 8.5. **Cytunodd** y Comisiwn i newid enwau'r etholaethau canlynol yn yr adroddiad:

Enw Gwreiddiol	Enw Swyddogol	Enw Arall
Gower and Swansea West	Swansea West and Gower	Gorllewin Abertawe a Gŵyr
Neath and Swansea East	Swansea East and Neath	Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd
Sir Gaerfyrddin	Caerfyrddin	Carmarthen

- 8.6. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at Gynghorydd Cyfreithiol ar ôl i sylwadau ychwanegol gael eu cynnwys gan y Comisiwn. Ar yr amod nad oes unrhyw broblemau o bwys, bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at y darlennydd proflenni, ac wedyn daw yn ôl at y Comisiwn i'w drafod mewn cyfarfod yn ddiweddarach.

9. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – ARGYMHELLION

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Chwefror 2021 gan yr Ysgrifennydd, a **nodwyd** a **chytunwyd** ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar wersi a ddysgwyd.

10. UNRHYW FUSNES ARALL

- 10.1. **Nodwyd** ei bod yn ofynnol i aelod annibynnol fod yn rhan o banel cyfweld y Comisiynwyr Cynorthwyol.
- 10.2. **Cytunwyd** y bydd Huw Thomas yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd fel aelod o'r panel cyfweld. Bydd y trydydd aelod yn cael ei ddewis o restr o ymgeiswyr posibl a gyflwynwyd i'r cyfarfod gan Huw Thomas.
- 10.3. **Gweithredu:** Ar ôl i'r Ysgrifennydd gael cymeradwyaeth i recriwtio gan Swyddfa'r Cabinet, bydd amserlenni'n cael eu rhannu â'r Comisiynwyr. Bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu â darpar aelodau'r panel yn y drefn ganlynol:
- 1) C Clancy
 - 2) S Thomas
 - 3) I Gardner
- 10.4. **Cytunwyd** y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 29 Mehefin 2021.